MAWRTH 2023

ER GWYBODAETH

Bwletin Chwarterol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

SEREMONI WOBRWYO I DDATHLU GWASANAETH HIR GAN STAFF

DATHLU CYFLAWNIAD DIFFODDWYR TÂN NEWYDD EU RECRIWTIO

CYDWEITHIO I DDIOGELU EIN CEFN GWLAD

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

SEREMONI WOBRWYO I DDATHLU GWASANAETH HIR GAN STAFF

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi anrhydeddu ei staff sydd wedi gwasanaethu hiraf mewn noson wobrwyo yn Venue Cymru.

Roedd y seremoni'n cydnabod cyfraniad mwy nag 20 aelod o staff sydd wedi rhoi dros 30 mlynedd o wasanaeth rhagorol i'r cyhoedd drwy gyflwyno clasbiau iddyn nhw am 30 neu 40 mlynedd o wasanaeth.

Bydd y rhain yn ychwanegol at y medalau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Da a dderbynion nhw am gwblhau 20 mlynedd o wasanaeth.

Yn ogystal, cyflwynwyd gwobr grisial i aelod o staff oedd wedi cwblhau 40 mlynedd o wasanaeth fel rhan o'r tîm cefnogi.

Y Prif Swyddog Tân, Dawn Docx a gyflwynodd y clasbiau 30 mlynedd i aelodau o staff presennol ac wedi ymddeol, a'r Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub, wnaeth gyflwyno'r clasbiau 40 mlynedd a'r wobr grisial.

Meddai Dawn Docx: "Mae derbyn medal neu glasbyn yn achlysur pwysig i bob diffoddwr tân ac mae'r seremoni hon yn dangos faint o ymrwymiad ac ymroddiad mae pob un o'r rhai sy'n cael eu gwobrwyo wedi'i roi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru.

“Dylai pawb sy’n cael eu hanrhydeddu fod yn falch iawn o beth maen nhw wedi’i gyflawni a theimlo boddhad mawr. Mae’r clasbiau a’r gwobrau’n arwydd bach o’n diolchgarwch am eu gwasanaeth i gymunedau Gogledd Cymru. Mae’r blynyddoedd o ymrwymiad maen nhw wedi’i ddangos yn wirioneddol ysbrydoledig.

“Roeddwn wrth fy modd yn gweld cymaint o wynebau cyfarwydd yn y digwyddiad yn Llandudno, yn ogystal â chael eu gweld yn dathlu eu llwyddiant gyda’u teuluoedd.

“Llongyfarchiadau calonnog i bawb. Mae’ch gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi’n fawr gennyf i fel Prif Swyddog Tân, eich cydweithwyr a’r cymunedau rydyn ni’n eu gwasanaethu.”

Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees: “Ar ran Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hoffwn longyfarch pawb sydd wedi derbyn medal, clasbyn neu wobr. Diolch yn fawr i chi i gyd am eich gwasanaeth a’ch ymroddiad.”

DATHLU CYFLAWNIAD DIFFODDWYR TÂN NEWYDD EU RECRIWTIO

Ym mis Rhagfyr, cafodd ein diffoddwyr tân mwyaf newydd gyfle i arddangos eu sgiliau newydd yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

Roedd y seremoni Dathlu Cyflawniad yn gyfle i ni roi cydnabyddiaeth i'r 16 diffoddwr tân newydd ar gwblhau eu hyfforddiant cychwynnol yn llwyddiannus.

Roedd y rhain yn cynnwys 12 diffoddwr tân llawn amser a oedd wedi cwblhau cwrs hyfforddi 14 wythnos a phedwar diffoddwr tân ystafell reoli newydd a oedd wedi cwblhau pum wythnos o hyfforddiant.

Meddai Dawn Docx, y Prif Swyddog Tân, "Llongyfarchiadau calonnog i'r holl recriwtiaid newydd a gwblhaodd eu hyfforddiant.

"Roedd hi'n wych gallu cydnabod a dathlu eu llwyddiannau ym mhresenoldeb eu teulu a'u ffrindiau gwadd.

"Mae'r holl ddiffoddwyr tân llawn amser newydd wedi cael eu pennu i orsaf dân benodol erbyn hyn.

"Mae'r pedwar diffoddwr tân ystafell reoli bellach yn gweithio ar eu gwylfa benodedig o fewn Ystafell Reoli'r Gwasanaeth Tân yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn Llanelwy.

"Mae'r ail garfan o ddiffoddwyr tân llawn amser newydd wedi ymuno â'r Gwasanaeth ers mis Ionawr a byddan nhw'n cwblhau eu cwrs ym mis Ebrill."

CYDWEITHIO I DDIOGELU EIN CEFN GWLAD

Mae'r Ymgyrch Dawns Glaw yn dasglu aml-asiantaeth o arbenigwyr o asiantaethau allweddol ledled Cymru. Cafodd ei lansio i leihau a, lle bo modd, gael gwared ar effaith tanau glaswellt ledled Cymru.

Wedi'i sefydlu yn wreiddiol yn 2016 gan y Bwrdd Strategol i Gymru Gyfan ar gyfer Lleihau Llosgi Bwriadol, mae'n mynd i'r afael ag achosion o danau glaswellt bwriadol ar draws Cymru. Bydd hefyd yn troi ei sylw at y cynnydd mewn tanau damweiniol a gaiff eu hachosi'n aml gan bobl yn ymddwyn yn ddiofal wrth fwynhau eu hunain yng nghefn gwlad.

Yn 2022, aeth gwasanaethau tân Cymru at 3,269 o ddigwyddiadau tân glaswellt – roedd hyn yn gynnydd o 62% ers y flwyddyn flaenorol, gyda thanau glaswellt bwriadol yn cynyddu 1542 (47%) i 2263.

Yn ôl Jane Honey, Rheolwr Diogelwch Cymunedol a Lleihau Tanau Bwriadol: "Fel blynyddoedd blaenorol, bydd yr ymgyrch Dawns Glaw yn dod i rym wrth i'r tywydd ddechrau gwella, pan fydd y nosweithiau'n mynd yn oleuach a phan fydd ein defnydd o dirwedd, cefn gwlad a glaswelltir Cymru'n dechrau cynyddu.

"Mae'n hanfodol bwysig ein bod i gyd yn parhau i gydweithio i greu tirwedd sy'n fwy iach, yn fwy gwydn ac yn gynyddol fioamrywiol yma yng Nghymru, gan wneud popeth allwn ni i ddiogelu'r adnodd gwerthfawr hwn ar gyfer y dyfodol.

"Rydyn ni eisiau gweithio gyda chymunedau, ffermwyr, a pherchnogion tir i rannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r effaith mae tanau bwriadol a damweiniol yn ei chael ar ein cymunedau.

"Rydyn ni'n deall bod llosgi dan reolaeth yn gallu cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan greu bioamrywiaeth ac ecosystem gynaliadwy ac rydyn ni ar gael i roi cyngor am ddim ar sut i wneud hyn yn ddiogel.

"Er bod damweiniau'n gallu digwydd, mae rhai yn ein cymunedau ni'n mynd ati'n fwriadol i roi ein cefn gwlad ar dân. Nid yn unig y mae hyn yn drosedd, y byddan nhw'n cael eu herlyn amdani, ond hefyd mae'n rhoi pwysau diangen ar ein gwasanaethau rheng flaen ac yn rhoi ein cymunedau mewn perygl o niwed. Byddwn yn annog unrhyw un sydd â gwybodaeth am droseddau o'r fath i ffonio 101, neu i gysylltu'n ddienw â CrimeStoppers ar 0800 555 111.

"Rydyn ni'n parhau i weithio â ffermwyr a pherchnogion tir ar draws Cymru i'w hatgoffa eu bod nhw'n cael llosgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin hyd at 15 Mawrth (hyd at 31 Mawrth mewn ardaloedd ucheldirol), ond serch hynny ei bod yn bwysig bod ganddyn nhw Gynllun Llosgi yn ei le i sicrhau eu bod yn llosgi'n ddiogel. Mae yn erbyn y gyfraith i losgi y tu allan i'r tymor llosgi a gallai arwain at gosbau o hyd at £1000."

I gael cyngor ar sut i gynnal llosgi dan reolaeth yn ddiogel ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

SBARC YN HELPU I DDATHLU MIS HANES LHDTC+

Fel rhan o ddathliadau mis Hanes LHDTC+ ym mis Chwefror, ymunodd y masgot diogelwch tân cyfeillgar Sbarc gyda staff mewn digwyddiad rhwydweithio Pride Cymru yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

Yn ôl Jamie Lewis, Cynghorydd Iechyd, Ffitrwydd a Lles: "Roedd y diwrnod yn dathlu prosiect 'Ewch Allan Byddwch Actif' Pride Cymru ac yn cynnwys sgyrsiau gan siaradwyr gwadd, stondinau gwybodaeth, gweithgareddau, gwybodaeth am hyfforddiant a gweithdai.

"Roedd yn gyfle gwych i ni hyrwyddo diogelwch tân a chyfleoedd recriwtio ar draws ein gwasanaeth tân ac achub.

"Fe gawson ni sgwrs gyda channoedd o bobl am y cyfleoedd i weithio gyda ni – diolch i Sbarc a brofodd i fod yn atyniad mawr ar ein stondin!"

CEFNOGI DIGWYDDIAD AWTISTIAETH INTEGREDIG YN LLANDUDNO

Cymerodd staff o Dîm Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych ran mewn digwyddiad Awtistiaeth Integredig yng Ngwesty Imperial Llandudno ym mis Chwefror i roi cyngor diogelwch i'r rhai oedd wedi dod i'r digwyddiad.

Dywedodd Quita Williams, Rheolwr Partneriaethau: "Rydyn ni eisiau meithrin perthynas efo amrywiaeth o wahanol bartneriaid ac roedd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i ni ymgysylltu â chynulleidfa rydyn ni am ei chefnogi drwy roi cyngor iddyn nhw ar ddiogelwch tân yn y cartref.

"Roedd yn ddigwyddiad gwych ac roedd hi'n bleser i fod wedi gallu cymryd rhan a bod yno."

DATHLU GŴYL DDEWI

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ac felly roedd ein staff yn falch o gael bod allan ar strydoedd Wrecsam yn cymryd rhan yn y Parêd Gŵyl Ddewi sy'n cael ei drefnu'n flynyddol gan Fenter Iaith Sir y Fflint a Wrecsam.

Roedd yn gyfle i ddathlu bod yn Gymraeg, a hefyd i hyrwyddo cyfleoedd am swyddi yn y Gwasanaeth – lle mae meddu ar sgiliau iaith Gymraeg yn fuddiol ac yn hanfodol i rai swyddi gwag.

Meddai Natalie Jones, Swyddog y Gymraeg, "Roedd staff o wahanol adrannau a'r orsaf dân leol yno'n hybu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

"Roedd yn ddigwyddiad difyr a hwyliog oedd yn galluogi ein staff i ddathlu bod yn Gymraeg a beth mae'n ei olygu iddyn nhw."

CHWILIWCH AM GYFLEOEDD GYRFA GYDA NI AR FACEBOOK

Gallwch nawr ddilyn ein tudalen Facebook newydd a sefydlwyd i dynnu sylw at gyfleoedd gyrfa yn ein gwasanaeth tân ac achub.

Mae ein tîm recriwtio Adnoddau Dynol wedi sefydlu tudalen Facebook er mwyn rhoi hwb i'r broses recriwtio a rhannu straeon ein staff presennol, yn ogystal â hysbysebu ein swyddi gwag diweddaraf a chyfleoedd fydd yn codi'n fuan.

Esboniodd Bethan N Jones, Arbenigwr AD: "Roedden ni eisiau sefydlu tudalen sy'n canolbwyntio'n llwyr ar recriwtio, er mwyn gallu rhannu manylion gydag ymgeiswyr posib am y gwaith a sut beth ydy hi i fod yn rhan o'n teulu tân.

"Mae gan y dudalen gannoedd o ddilynwyr yn barod sy'n ein holi ni am swyddi gwag a gyrfaoedd yn y Gwasanaeth."

Gallwch ddilyn Gyrfaoedd Tân Gogledd Cymru / North Wales Fire Careers ar Facebook.

UNED CADETIAID TÂN NEWYDD YN CAEL EI SEFYDLU YN Y BALA

Cafodd uned cadetiaid tân newydd ei sefydlu yng Ngorsaf Dân y Bala yn dilyn noson agored a gynhaliwyd i recriwtio pobl ifanc lleol.

Sefydliad ieuenctid addysgol yw'r Cadetiaid Tân Cenedlaethol sy'n cael ei redeg gan y gwasanaethau tân ac achub mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Ei nod yw creu cymunedau mwy diogel a chryfach drwy ddatblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth unigolion am eu cymuned er mwyn gwella eu sgiliau dinasyddiaeth.

Mae'r fenter hon yn rhoi cyfle i bobl ifanc rhwng 12 ac 16 oed i ennill Gwobr Lefel 1 i 3 mewn Gwasanaethau Tân ac Achub yn y Gymuned a derbyn tystysgrifau cyflawniad galwedigaethol mewn amrywiaeth o feysydd. Bydd y bobl ifanc yn dysgu sgiliau amrywiol gan gynnwys gweithio fel tîm, datrys problemau a chyfathrebu, gan wella eu sgiliau bywyd a'u gwneud yn fwy cyflogadwy.

Bellach mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru bedair uned cadetiaid tân yn y gogledd, gan gynnwys Amlwch, Porthaethwy a'r Waun, yn ogystal â'r Bala.

Cadetiaid Tân
Fire Cadets

Yn ôl Jane Honey, Rheolwr Diogelwch Cymunedol a Lleihau Tanau Bwriadol: "Fel y swyddog sy'n arwain ar ymgysylltu â phobl ifanc, dw i wedi gweld drosof fy hun ymrwymiad ac angerdd y staff sy'n arwain yr unedau hyn. Alla i ddim gorbwysleisio pa mor fuddiol ydy'r profiadau hyn i'r bobl sy'n cymryd rhan.

"Dw i'n falch bod pedwaredd uned gennym yma yng Ngogledd Cymru bellach a dw i'n gobeithio gweld mwy yn y dyfodol."

I gael mwy o wybodaeth am y cynllun Cadetiaid Tân neu i wneud cais i ymuno ag un o'r unedau ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

CYSYLLTU Â CHYMUNEDAU AMLDDIWYLLIANNOL

Roedd digwyddiad amlddiwylliannol a gynhaliwyd gan Hyb Diwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru yn gyfle gwych i staff ymgysylltu â phobl o bob rhan o Wrecsam, Sir y Fflint a thu hwnt.

Dyma oedd y tro cyntaf ers y pandemig i'r hyb allu cynnal eu diwrnod amlddiwylliannol blynyddol – a gafodd ei drefnu ar y cyd gan Gymuned Affricanaidd Wrecsam, Tŷ Pawb a Race Council Cymru.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys rhaglen wyth awr a oedd yn cynnwys cerddoriaeth draddodiadol Affricanaidd, arddangosiadau dawns, blasu bwyd a sioe ffasiwn.

Meddai Benji Evans, Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: "Mae Cymuned Affricanaidd Wrecsam yn trefnu amryw o ddigwyddiadau fel hyn yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnig ffordd wych i ni ymgysylltu â phobl o gefndiroedd gwahanol, gan gynnwys rhai nad ydyn nhw'n cael eu clywed yn aml.

"Aeth staff ein gorsaf yn Wrecsam i'r digwyddiad er mwyn hyrwyddo ein harchwiliadau diogel ac iach, amlygu cyfleoedd gyrfa, cyfeirio pobl at ein gwefan a'u hannog i'n dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol."

YMARFERIAD HYFFORDDI AML-ASIANTAETH YN NHWNNEL CONWY

Mae staff wedi cymryd rhan mewn ymarferiad hyfforddi aml-asiantaeth ac ymweliad ymgyfarwyddo yn Nhwnnel Conwy.

Dyma Bob Nellist, Rheolwr Parodrwydd Gweithredol, Ardal y Canol, i sôn mwy: "Gan fod ffordd yr A55 i gyfeiriad y gorllewin ar gau am wythnos ar gyfer gwaith cynnal a chadw, roedden ni'n gallu manteisio ar y cyfle i gynnal ymarferiad hyfforddi yn ogystal ag ymweliad ymgyfarwyddo o fewn y twnnel.

"Cafwyd derbyniad da wrth i griwiau o Fae Colwyn a Chonwy, a swyddogion tân, ddod i gymryd rhan yn yr ymarferiad aml-asiantaeth. Diolch i'r ymarferiad,



bu'n bosib i ni adolygu'r cynllun tactegol gweithredol ar gyfer y twnnel a darparu senario hyfforddi realistig i griwiau.

"Wedyn, cafodd ymweliad ymgyfarwyddo ei gynnal ar gyfer swyddogion tân, wedi'i hwyluso gan beirianwyr y twnnel ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru."

CWBLHAU CYRSIAU ACHUB DŴR FEL RHAN O YMRWYMIAD Y GWASANAETH I HYFFORDDIANT DIOGELWCH DŴR

Mae staff o bob rhan o'r Gwasanaeth wedi bod yn cymryd rhan mewn cyrsiau Tîm Dŵr Math B ym Mhorthaethwy dros y misoedd diwethaf.

Mae'r rhain yn cynrychioli'r diweddaraf mewn cyfres o gyrsiau sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch dŵr fel rhan o ymrwymiad y Gwasanaeth i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Meddai Eilian Roberts, Rheolwr Hyfforddiant Ardal y Gorllewin: "Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r adran Gweithrediadau a'r adran Hyfforddiant wedi bod yn cydweithio i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â Chanllawiau Cysyniad o Weithrediadau Achub yn ystod Llifogydd DEFRA, yn ogystal â Chod Cychod Achub newydd y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'r gwaith yn cynnwys hyfforddi criwiau a phrynu offer a PPE newydd.

"Ar y cyd efo'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a'r RNLI, rydan ni hefyd wedi datblygu cwrs sy'n ein galluogi i gyflwyno cyrsiau Hyfforddwr Tîm Dŵr Math B. Hyd yn hyn, rydan ni wedi uwchsgilio chwe gweithredydd cwch i fod yn hyfforddwyr o fewn y Gwasanaeth, gyda bwriad i hyfforddi tri hyfforddwr arall yn ddiweddarach eleni.

"Ym mis Tachwedd 2022, yn dilyn cais llwyddiannus i'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA), mae Gorsaf Dân Porthaethwy wedi dod yn Ganolfan Hyfforddi RYA gymeradwy. Mae hyn yn ein galluogi ni fel gwasanaeth i gyflawni a chyhoeddi trwyddedau Cychod Pŵer Lefel 2 RYA. Mae'r cwrs yma, yn ogystal â'r cwrs Gweithredwr Cwch Achub Dŵr, yn gwella sgiliau gweithredwyr math B y tîm ac yn rhoi hyder iddyn nhw wrth weithio efo cychod mewn amgylcheddau heriol.

"Y llynedd, cafodd ein cwrs Rheolwr Digwyddiad Dŵr mewnol cyntaf ei gyflwyno. Mae'r cwrs yma'n datblygu gallu ein rheolwyr i ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol i greu cynlluniau llifogydd a rheoli'r defnydd o adnoddau wrth ddelio â llifogydd yn lleol neu ar raddfa fawr ar draws ardal ein Gwasanaeth.

""O fis Ionawr eleni, rydan ni wedi bod yn cyflwyno cwrs ail-achredu Tîm Dŵr Math D diwygiedig yn y Bala. Mae maes llafur hwn bellach yn cynnwys hyfforddiant yn ystod y nos. Mae hyn yn rhoi cyfle i griwiau brofi'r heriau sy'n eu hwynebu wrth weithio dan amodau sy'n gwaethygu ac amodau tywyll."